


DAVIES, WILLIAM CADWALADR (1849 - 1905), un o arloeswyr y mudiad addysg yng Nghymru



Enw: William Cadwaladr Davies

Dyddiad geni: 1849

Dyddiad marw: 1905

Priod: Mary Davies (née Davies)

Rhiant: William Davies

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: un o arloeswyr y mudiad addysg yng Nghymru

Maes gweithgaredd: Addysg

Awdur: John Edward Lloyd

Ganwyd ym Mangor, 2 Mai 1849, yn fab i William Davies, clerac, ac yn nai i **John Davies** ('Gwyneddion'). O ysgol elfennol Garth, Bangor, aeth i swyddfa'r *North Wales Chronicle*, newyddiadur lleol, a chymaint oedd ei ddatblygiad fel newyddiadurwr nes ei ddewis, yn 20 oed, i ddilyn ei ewythr fel golygydd *Cronicl Cymru*, papur newydd arall gan yr un cwmni. Pan ddaeth gyrfa hwnnw i ben yn 1872, aeth i Landudno i gynrychioli'r *Cronicl*; tra bu yno rhoes gymorth sylweddol i **Owen Jones** ('Meudwy Môn') i ddwyn *Cymru* (1875) allan. Yna symudodd i Lundain i gynorthwyo **Syr Hugh Owen** yn swyddfa'r coleg newydd prifathrofaol a agoraisid yn Aberystwyth. Yn 1876 dychwelodd i Fangor, i ddilyn ei ewythr unwaith eto, y tro hwn yn rheolwr cangen ariandy y Meistri Pugh Jones a'i gwmmi.

Pan oedd yn sefydlu y 'North Wales Scholarship Association,' a gychwynasid gan **Syr Hugh Owen** yn 1879, i lanw'r bwll rhwng addysg elfennol ac uwchraddol, chwaraeodd Davies ran bwysig. Eithr yn y mudiad a wnaeth agor Coleg Prifathrofaol Gogledd Cymru yn bosibl y gadawodd ei ôl yn fwyaf arbennig ar fywyd cyhoeddus Cymru. Fe'i bwriadodd ei hun gyda brwdfrydedd i'r gwaith rhagbaratoawl yn 1883, pryd y codwyd cronfa noddwyr o dros £30,000, ac felly yr oedd yn eithaf naturiol ei ddewis yn ysgrifennydd a chofrestrydd y coleg newydd a agorwyd yn 1884. Am wyth mlynedd bu'n gwyllo dros lwyddiant y coleg; ei gyfeillgarwch ef â Dr. Evan Thomas, Manchester, a barodd i'r coleg gael cymynrodd o £47,000 yn 1890. Ymddiswyddodd yn 1892 o achos afiechyd ac am y 13 blynedd nesaf treuliodd amser llai prysur, gan dderbyn amryw anrhydeddau gan y coleg a'r Brifysgol.

Priododd yn 1888 â **Mary Davies** y gantores, a daeth yn fargyfreithiwr, gan ymaelodi yn yr Inner Temple yn 1891. Ysgrifennodd y pedair pennod gyntaf yn hanes Prifysgol Cymru a'i cholegau a gyhoeddwyd yn 1905, a bu farw yn Worthing 25 Tachwedd y flwyddyn honno. Coffeir ef yn ei goleg gan gerflun pres a wnaeth **Syr William Goscombe John** yn 1902.

Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

Ffynonellau

North Wales Chronicle, 1 Rhagfyr 1905

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734579

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>



Arddull APA



Lloyd, J. E., (1953). DAVIES, WILLIAM CADWALADR (1849 - 1905), un o arloeswyr y mudiad addysg yng Nghymru. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-CAD-1849>

Cyfrannu

Preifatrwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Modeld gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government